Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

# CRONFA DIGWYDDIADAU DEG TREF

Cefnogwyd gan
Supported by
Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

POWERED BY LEVELLING UP

WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg
Ariennir y gronfa yma gan Gronfa Ffyniant a Rennir Llywodraeth y DU

**Cyflwyniad**

Nod Cronfa Ddigwyddiadau Deg Tref yw codi proffil trefi gwledig Sir Gâr trwy hyrwyddo ar dreftadaeth a diwylliant cyfoethog y Sir drwy gynnal digwyddiadau.

Amcanion y Gronfa yw:

1. Ysgogi'r economi leol drwy gynyddu nifer yr ymwelwyr yng nghanol trefi

2. Darparu gwell cyfleoedd cymdeithasol i bobl leol.

3. Denu ymwelwyr dros nos a dydd o farchnadoedd a sectorau newydd.

4. Cryfhau cymunedau drwy annog cyfranogiad lleol

**Gwariant Cymwys**

Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried gan sefydliadau sy'n trefnu digwyddiadau cymunedol newydd neu sy'n gwella digwyddiadau presennol sy'n dod â buddion economaidd a chymdeithasol clir.

**Ardaloedd cymwys:**

Mae'r gronfa yn targedu'r ardaloedd canlynol;

- Cwmaman
- Cydweli
- Talacharn
- Cross Hands
- Sanclêr
- Hendy-gwyn ar Daf
- Castell Newydd Emlyn
- Llanybydder
- Llandeilo
- Llanymddyfri

**Sefydliadau sy'n gymwys i wneud cais**

Sefydliadau gwirfoddol/elusennol sydd o fudd i drigolion Sir Gaerfyrddin.

Mae'n rhaid i sefydliadau fod yn:

- wedi'i gofrestru fel elusen
- sefydliad nid-er-elw
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Sefydliadau Gwirfoddol

**Gwariant Cymwys**

• Costau sy'n gysylltiedig â digwyddiadau newydd sy'n dangos cyfranogiad cymunedol clir sy'n cyfrannu at atyniad ymwelwyr y dref briodol a chyfleoedd i gael effaith ehangach ar draws y Sir

• Costau sy'n gysylltiedig ag elfennau newydd ac ychwanegol i ddigwyddiadau sy'n bodoli eisoes

Mae'r rhestr ganlynol yn darparu enghreifftiau o wariant cymwys y gellid ei gefnogi (nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr)

- Costau marchnata a hyrwyddo dwyieithog
- Costau cyfieithu
- Artistiaid, adloniant, perfformwyr
- Llogi offer
- Prynu offer
- Ffioedd proffesiynol sy'n gysylltiedig â rheoli digwyddiadau
- Cyfarpar diogelwch
- Yswiriant atebolrwydd cyhoeddus hyd at £10m

**Gwariant anghymwys (nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr)**

- Prosiectau sydd eisoes wedi dechrau cyn derbyn cynnig grant
- Pryniannau arian parod
- Costau mewn da
- Costau ar gyfer staff, gwirfoddolwyr, ymddiriedolwyr neu gyfarwyddwyr sy'n ymgeisio.

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn caffael nwyddau a gwasanaethau yn unol â Rheolau Caffael Trydydd Parti Cyngor Sir Caerfyrddin. **Atodiad A**

**Cyfradd Grant**

- Dyfernir cymorth grant ar sail canran o gyfanswm cost y prosiect hyd at uchafswm o 70%;
- Uchafswm y grant sydd ar gael yw £4,000 ar gyfer digwyddiadau newydd nad ydynt wedi'u cynnal o'r blaen.
- Uchafswm y grant sydd ar gael yw £2,000 ar gyfer digwyddiadau presennol*
- Mae angen cadarnhad ysgrifenedig bod cyfraniad hyd at 30% gan bob ymgeisydd fel arian cyfatebol tuag at y prosiect.
- Nid yw amser gwirfoddolwyr yn cael gwmws fel ffynhonell arian cyfatebol
- Bydd dyfarniad grant yn seiliedig ar gostau sy'n gysylltiedig ag elfennau ychwanegol yn unig

**Rhaid i bob cais;**

- ddangos angen cymeunedol ynghyd âg effaith y prosiect
- cyflwyno tystioaeth bod asesiadau risg, yswiriant a thrwyddedau mewn lle.
- cyflwno copi o gyfrifon diweddaraf y mudiad sy'n ymgeisio am gymorth. Rhaid i'r mudiad sy'n cyflwyno cais fod yn sefydliad cyfansoddiadol di-elw.
- sicrhau bod y digwyddiad arfaethedig yn agored ac yn hygyrch i bawb.
- sicrhau nad yw'r digwyddiad arfaethedig yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg a nodi sut mae'r digwyddiad arfaethedig yn ceisio lliniaru unrhyw effeithiau negyddol.
- sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth baratoi a chyflwyno'r digwyddiad. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn **Atodiad B**
- dangos sut maent yn bwriadu tysiolaethu effaith y digwyddiad i'r ardal leol
- llunio adroddiad gwerthuso o'r digwyddiad o fewn cyfnod o dri mis ar ôl cwblhau'r digwyddiad
- mynychu gweithdy Trefnwyr Digwyddiadau â hwylusir gan Gyngor Sir Gâr pe bai eu cais yn cael ei gefnogi.
- sicrhau bod tystiolaeth ategol fel y nodwyd yn y Rhestr Wirio Ceisiadau yn cael ei chyflwyno gyda'r cais am gymorth. Bydd ceisiadau â dderbynnir heb y dystiolaeth ategol ofynnol yn cael eu hystyried yn anghyflawn ac ni fyddant yn cael eu hasesu.
- Rhaid cwblhau'r holl weithgareddau â ariennir erbyn 31 Rhagfyr 2024 man pellaf.

**Allbynnau**

Bydd disgwyl i brosiectau ddangos pa rai o'r Dangosyddion Perfformiad canlynol y byddant yn eu cyflawni. Mae canllawiau ar y dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer pob dangosydd a adroddir i'w gweld yn **Atodiad 3**

- Nifer y digwyddiadau neu weithgareddau lleol a gefnogir
- Nifer y cyfleoedd gwirfoddoli a gefnogir
- Nifer y bobl a gyrhaeddwyd
- Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr
- Nifer o fusnesau yn derbyn cymorth heb fod yn gymorth ariannol

**Proses**

- Bydd Cyngor Sir Gâr yn agor galwad am geisiadau
- Bydd y ffenestr ymgeisio yn cau ar 10 Mawrth am 11:59pm
- Bydd yr holl geisiadau a dderbynnir gan Gyngor Sir Caerfyrddin yn cael eu cofrestru a'u cydnabod.
- Bydd ceisiadau'n cael eu gwerthuso yn seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynir yn y ffurflen gais a bydd cyllid yn cael ei ddyrannu'n gystadleuol o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Oherwydd y gyllideb sydd ar gael ar gyfer y gronfa hon, rhagwelir na fydd ail alwad am geisiadau.
- Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu gan banel mewnol cyn cyflwyno i Pennaeth Adfywio, Digidol a Pholisi am gymeradwyaeth llawn o dan bwerau dirprwyedig yr awdurdod.
- Bydd penderfyniad y Cyngor yn derfynol ac mae ganddo'r hawl i wrthod unrhyw gais heb ddatgelu ei resymau, ac mae hefyd yn cadw'r hawl i dynnu neu ailhawlio unrhyw grant nad yw'n cydymffurfio â thelerau ac amodau'r dyfarniad
- Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu hysbysu o ganlyniad eu cais erbyn 26 Mawrth 2024 fan bellaf..

**Ceisiadau llwyddiannus**

- Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd Cyngor Sir Gâr yn danfon llythyr cynnig grant a thelerau ac amodau cysylltiedig i'r ymgeisydd
- Rhaid i'r llythyr cynnig grant cael ei lofnodi a'i ddychwelyd cyn i unrhyw gostau gael eu hysgwyddo. Bydd unrhwy wariant sy’n cael ei wneud cyn derbyn cymeradwyaeth llawn yn cael eu hystyried yn anghymwys.
- Bydd swyddogion yn trefnu cyfarfod ag ymgeiswyr llwyddiannus i drafod prosesau ar gyfer ad-dalu arian ar gyfer gwariant â chymorth cymwys.
- Bydd gofyn i ymgeiswyr gyflwyno hawliadau ariannol amserol ar dempled a ddarparwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin i'w ad-dalu
- Bydd yn ofynnol i gopïau o anfonebau, ymarferion caffael a datganiadau banc gael eu cyflwyno gyda'r ffurflen hawlio i'w gwirio cyn i'r taliad gael ei ryddhau.
- Nod Cyngor Sir Caerfyrddin yw prosesu ceisiadau wedi'u cwblhau o fewn 20 diwrnod gwaith

**Atodiad 1 Canllawiau Caffael Grantiau Trydedd Parti**

| Gofynion | Gwerth | Y Broses Gaffael |
|---|---|---|
| **Popeth** | **hyd at £4,999** | Rhaid cael a chadw o leiaf **1 Dyfynbris ysgrifenedig**<br>Mae'n rhaid cael y gwerth gorau am arian ac mae'n rhaid cymryd gofal rhesymol i gael nwyddau, gwaith neu wasanaethau o ansawdd digonol am bris cystadleuol. Rhaid cadw cofnod dogfennol i gefnogi'r penderfyniad at ddibenion archwilio.<br><br>Gofynnir i ymgeiswyr 'Meddwl Sir Gâr yn Gyntaf' wrth geisio dyfynbrisiau ar gyfer prynu Nwyddau/Gwasanaethau. Felly, edrychwch ar y farchnad i weld a oes unrhyw fusnesau yn Sir Gaerfyrddin a all ddarparu'r nwyddau / gwasanaeth yr ydych yn ceisio eu prynu. Efallai y bydd gofyn i ymgeiswyr ddangos eu bod wedi ceisio dyfynbrisiau o'r fath. |
| **Popeth** | **£5,000 a £24,999** | Rhaid ceisio o leiaf 3 dyfynbris ysgrifenedig o ffynonellau cystadleuol*. Mae'n rhaid i'r dyfynbrisiau fod yn seiliedig ar yr un fanyleb a chael eu gwerthuso ar sail 'tebyg am debyg'. Mae'n rhaid cofnodi'r dyfynbrisiau a geisiwyd, y broses werthuso a'r penderfyniad dyfarnu mewn dogfen gofnodedig.<br><br>Gofynnir i ymgeiswyr 'Meddwl Sir Gâr yn Gyntaf' wrth geisio dyfynbrisiau ar gyfer prynu Nwyddau/Gwasanaethau. Felly, edrychwch ar y farchnad i weld a oes unrhyw fusnesau yn Sir Gaerfyrddin a all ddarparu'r nwyddau / gwasanaeth yr ydych yn ceisio eu prynu. Efallai y bydd gofyn i ymgeiswyr ddangos eu bod wedi ceisio dyfynbrisiau o'r fath. |
| **Popeth** | **£25,000 a £74,999** | Rhaid ceisio o leiaf 3 dyfynbris ysgrifenedig o ffynonellau cystadleuol*. Mae'n rhaid fod y dyfynbrisiau'n seiliedig ar:<br>• yr un fanyleb<br>• yr un meini prawf gwerthuso a'u gwerthuso ar sail 'tebyg am debyg'. Yr arfer gorau yw sefydlu panel gwerthuso<br>• yr un dyddiad cau.<br>Mae'n rhaid cofnodi'r dyfynbrisiau a geisiwyd, y broses werthuso a'r penderfyniad dyfarnu mewn dogfen gofnodedig at ddibenion archwilio.<br>**Os na ddaw mwy nag un dyfynbris i law mae'n **rhaid** ichi gysylltu â'r Rheolwr Prosiect o Gyngor Sir Caerfyrddin (CSC), i roi'r manylion a chyfiawnhau'r broses gaffael a ddefnyddiwyd. Bydd yn rhaid i'r penderfyniad i symud ymlaen i brynu gael ei gymeradwyo gan CSC, fesul achos. Os yw'n amlwg y gellid ceisio mwy nag un dyfynbris, gall fod yn ofynnol ichi hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru.-<br>https://www.sell2wales.gov.wales |

**Canllawiau Pwysig**
**Hysbysebu trwy gwerthwchigymru**
* Mae'n bosibl ichi hysbysebu ar y wefan Gaffael Genedlaethol, www.GwerthwchiGymru.llyw.cymru os yw'n anodd ichi bennu isafswm y cyflenwyr sydd eu hangen a/neu os hoffech newid cyflenwyr neu ddenu cyflenwyr newydd i gyflwyno dyfynbris neu dendr. Hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru yw'r arfer gorau, ond efallai y byddai'n well gennych nodi cyflenwyr posibl a allai ddarparu'r cynnig gorau cyffredinol i chi.
Mae'r cyfleuster hwn ar gael i chi yn rhad ac am ddim, ewch i wefan GwerthwchiGymru www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/ a chysylltwch â llinell gymorth y wefan ar 0800 222 9004 i gael rhagor o wybodaeth.

**Yn Ceisio Dyfynbrisiau/Tendrau**
Yn achos gwariant sy'n fwy na £5,000, mae'n hanfodol bod y dyfynbrisiau/tendrau yn cael eu ceisio gan gyflenwyr priodol ar gyfer y nwyddau, y gwaith neu'r gwasanaethau sy'n ofynnol. Os yw'n amlwg y ceisiwyd dyfynbrisiau/tendrau anaddas, gall fod yn ofynnol ichi hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru.

**Cyllidwyr Eraill**
Os yw prosiect yn cynnwys unrhyw ffrydiau cyllido eraill neu ychwanegol, mae'n rhaid, o leiaf, ddilyn y Rheolau Caffael Grant Trydydd Parti hyn ar gyfer cyfanswm gwariant amcangyfrifedig y gofyniad.

**Osgoi gwrthdaro buddiannau**
Sylweddolwn y gallai ymgeiswyr / datblygwyr neu unigolion sy’n gysylltiedig â nhw (megis perthnasau, partneriaid busnes neu gyfeillion), ddymuno tendro am gontract sy’n cael ei gynnig gan yr ymgeisydd / datblygwr. Mae hynny’n dderbyniol ond bydd angen i’r ymgeisydd sicrhau bod y broses dendro yn cael ei chynnal mewn modd agored, a’i bod yn dryloyw a theg, fel yr amlinellir uchod, heb roi unrhyw fantais i un unigolyn neu gwmni dros un arall. Rhaid cymryd mesurau priodol i atal nodi ac union unrhyw achosion o wrthdaro buddiannau.
Os oes gan ymgeisydd / datblygwr neu unrhyw berson sy'n gysylltiedig â nhw'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, fudd ariannol, economaidd neu fudd personol arall y gellid ystyried ei fod yn peryglu eu didueddrwydd a'u hannibyniaeth yng nghyswllt y weithdrefn gaffael:

- rhaid i’r ymgeisydd / datblygwr, neu unrhyw berson arall neu barti sydd â budd, ddatgan y cyfrwy fudd yn ysgrifenedig wrth swyddog y prosiect, a fydd yn darparu cyngor yn unol â hynny.
- rhaid sicrhau nad yw manylebau a meini prawf gwerthuso yn ffafrio nac wedi’u teilwra ar gyfer un datrysiad nac unrhyw un parti dros un arall.
- ni ddylai’r unigolyn neu barti sydd â budd gymryd unrhyw ran o gwbl yn y gweithdrefnau i arfarnu’r tendrau i sicrhau bod y broses yn deg i bawb. Cydnabyddir y gallai fod yn ofynnol i'r ymgeisydd grant roi'r gymeradwyaeth derfynol
- rhaid cofnodi pob cam o'r weithdrefn yn ffurfiol.
- pe bai'r contract fel rheol yn destun un weithdrefn dendro, argymhellir y dylai'r noddwr ofyn am ddyfynbrisiau ysgrifenedig gan o leiaf ddau gyflenwr arall (h.y. yn dilyn y weithdrefn a nodir uchod ar gyfer contractau rhwng £5000 a £25,000)

Pwrpas y canllawiau hyn yw sicrhau bod yna degwch wrth wario arian cyhoeddus ac nad yw gonestrwydd yr ymgeisydd yn cael ei beryglu.

**Newidiadau i'r fanyleb neu'r contract**

Os oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r fanyleb ar ôl ceisio dyfynbrisiau/tendrau sy'n effeithio ar gwmpas gwreiddiol y gofyniad, efallai y bydd angen cynnal ymarfer caffael newydd i sicrhau'r gwerth gorau am arian. Gall hyn ddigwydd o ganlyniad i ychwanegiadau annisgwyl i'r gofyniad gwreiddiol, lle derbynnir tendrau sy'n fwy na'r gyllideb sydd ar gael, lle mae lefelau cyllido yn newid ac ati. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd am grant hysbysu'r swyddog Prosiect a fydd yn cynnig cyngor yn unol â hynny.

- **Gall methiant i gadw at y gweithdrefnau perthnasol a amlinellir uchod gael ei ystyried yn ddiffyg cydymffurfio a gallai hynny arwain at dynnu'n ôl y cynnig o grant a hawlio'r arian yn ôl o bosibl.**
- **Mewn achosion lle na allwch gydymffurfio â gofynion y gweithdrefnau hyn, rhaid ichi roi gwybod i reolwr y prosiect.**
- **Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch sut i weithredu'r gweithdrefnau hyn, cysylltwch â'r Rheolwr Prosiect i gael eglurhad a chyfarwyddyd pellach.**

**Cynghorion ynghylch Tendro**

| **Pethau i'w gwneud** | **Pethau i beidio â'u gwneud** |
|---|---|
| • gofalwch fod unrhyw wrthdaro buddiannau posibl yn cael ei ddatgan ar y cyfle cyntaf posibl. | • **Peidiwch** â gogwyddo'r fanyleb er mwyn diystyru neu wahaniaethu yn erbyn cyflenwyr, hynny yw cyfyngu'r fanyleb i frand penodol. |
| • cydymffurfiwch â'r rheolau priodol | • **Peidiwch** â newid y fanyleb ar ôl iddi gael ei dosbarthu. |
| • gofalwch fod y fanyleb yn fanwl-gywir a heb fod yn fwy na'r gofynion. | • **Peidiwch** â newid y meini prawf gwerthuso yn ystod y broses. |
| • gofalwch fod y Meini Prawf Gwerthuso yn uniongyrchol berthnasol i bwnc y contract | • **Peidiwch** â rhoi rhy ychydig o amser i gwmnïau gyflwyno dyfynbris. |
| • gofalwch lenwi a chadw cofnodion llawn er gwybodaeth ar gyfer y dyfodol ac at ddibenion archwilio | • **Peidiwch** â rhoi gormod o fanylion ar lafar pan fyddwch yn ateb cwestiynau penodol gan gyflenwyr. Mae'n rhaid darparu'r un wybodaeth i'r holl gyflenwyr i sicrhau bod y broses yn un deg. |
| • gofalwch fod y dyfynbrisiau/tendrau yn cael eu gwerthuso ar sail 'tebyg i'w debyg. | • **Peidiwch** â datgelu prisiau i gyflenwyr posibl. |
| • gofalwch eich bod yn delio â chyflenwyr mewn modd agored, tryloyw a hynny heb wahaniaethu. | • **Peidiwch** â thorri'r rheolau ynghylch cyfrinachedd. |
| • caniatáu digon o amser i gwmnïau gyflwyno eu dyfynbris | • **Peidiwch** ag agor dyfynbrisiau/tendrau cyn y dyddiad cau. |
| • sicrhau bod gwerth y Nwyddau / Gwaith neu'r Gwasanaeth yn cael ei amcangyfrif yn gywir ar ddechrau'r broses i gymhwyso'r broses gaffael gywir.. | • **Peidiwch** ag ystyried ceisiadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau. |

**Diffiniadau Caffael**

| Teitl | Disgrifiad |
|---|---|
| **Cydgasglu** | Cyfuno gwerth y contractau ar wahân ar gyfer yr un cyflenwad, gwasanaeth neu waith. |
| **Y Contract** | Contract at ddibenion y Rheolau hyn fydd unrhyw gytundeb (boed yn ysgrifenedig) rhwng yr ymgeisydd am grant ac un neu fwy o bartïon eraill ar gyfer: -<br>• gwerthu nwyddau neu ddeunyddiau.<br>• cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau.<br>• cyflawni gwaith<br>• y ddarpariaeth gwasanaethau (gan gynnwys llety a chyfleusterau). |
| **Ffynhonnell Gystadleuol** | darparwr annibynnol yn gwneud cynnig yn erbyn darparwr annibynnol arall |
| **Nwyddau** | eitemau materol yw nwyddau h.y. offer, bwyd, cerbydau ac ati |
| **Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015** | rheolau a rheoliadau y mae'n rhaid i sefydliadau'r Sector Cyhoeddus lynu wrthynt wrth gaffael Nwyddau, Gwaith a Gwasanaethau dros drothwy gwerth penodol lle dylid cynnal Ymarfer Tendro swyddogol yn unol â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015. |
| Gwerthusiad | dull o bennu pa gynnig yw'r gorau o ran darparu gwerth yr arian yn unol â'r meini prawf gwerthuso a bennwyd ymlaen llaw |
| **Meini Prawf Gwerthuso** | Rhestr o'r gofynion allweddol a dynnwyd o'r fanyleb a fydd yn galluogi'r cyflenwyr i esbonio sut y maent yn bwriadu darparu'r gofynion a gaiff eu gwerthuso. Mae'r meini prawf a ddefnyddir i benderfynu pa dendr yw'r mwyaf economaidd fanteisiol yn seiliedig ar gyfuniad o feini prawf pris/cost ac ansawdd. |
| **Panel Gwerthuso** | Yr arfer gorau yw sefydlu panel gwerthuso i gynnal yr ymarfer gwerthuso. Fe all fod yn briodol cael panel traws-swyddogaethol. Dylai'r panel gytuno ar y fanyleb a'r meini prawf gwerthuso. Dylai'r Panel weithredu'n gyson ym mhob cam o'r ymarferiad caffael |
| **Gwerthwchigymru** | Gwefan Gaffael Genedlaethol yw hon lle caiff holl gontractau'r sector cyhoeddus eu hysbysebu. Gall Derbynwyr Grant Trydydd Parti hefyd hysbysebu trwy'r wefan, a hynny yn rhad ac am ddim, ewch i wefan GwerthwchiGymru www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/ a chysylltwch â llinell gymorth y wefan ar 0800 222 9004 i gael rhagor o wybodaeth. |
| **Gwasanaethau** | tasgau a wneir gan bobl h.y. gwasanaethau ymgynghoriaeth, gwasanaethau cyfieithu ac ati |
| **Manyleb** | datganiad ysgrifenedig yw hwn sy'n diffinio'r gofynion. Bydd y fanyleb yn amrywio yn ôl y gwaith, y cynnyrch neu'r gwasanaeth dan sylw. Efallai mai disgrifiad byr fydd yn achos cynnyrch syml, ond yn achos gofyniad cymhleth, bydd yn ddogfen gynhwysfawr. Ni ddylai disgrifiad o'r nwyddau, y gwaith neu'r gwasanaethau gyfeirio at wneuthuriad, brand neu ffynhonnell benodol. |
| **Tendr/Dyfynbris** | dogfen y bydd darpar gyflenwr yn ei llunio mewn ymateb i wahoddiad i dendro/rhoi dyfynbris. Mae'r ddogfen yn nodi gwybodaeth gyffredinol drwy arddangos gallu a chymhwyster y cyflenwr - gan gynnwys gwybodaeth fanwl am sut y mae'n bwriadu cyflawni manylebau'r gofyniad. |
| **Gwaith** | gan gynnwys tirweddu, adeiladu, gwaith adeiladu ac ati |

## Atodiad 2 Cefnogi'r iaith Gymraeg

**Enghreifftiau o ddarpariaeth yn unol â Safonau'r Gymraeg**:

Yn y tabl isod ceir rhestr o enghreifftiau o ymrwymiadau y gallai'r ymgeisydd eu gwneud er mwyn eu darparu yn unol â'r Safonau. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ond yn hytrach yn cynnig awgrymiadau, a gall yr ymgeisydd awgrymu ymrwymiadau eraill.
Bydd disgwyl iddynt ystyried perthnasedd yr isod i'r gwaith y maent am ei gyflawni drwy'r grant ac ymrwymo i gymaint â phosibl yn unol â maint trosiant y sefydliad, a maint y cais am gyllid.
Noder fodd bynnag y bydd disgwyl i unrhyw fudiad sy'n cyflogi mwy na 50 aelod wneud ymrwymiad sylweddol i'r Gymraeg, gan anelu at gyflawni'r hyn sydd ar y rhestr isod. Bydd pob sefyllfa'n cael ei hystyried yn unigol, a bydd cyngor a chymorth ar gael i ymgeiswyr.

### Y sefydliad

- Byddwn yn mapio gallu cyfredol y sefydliad i gyflawni yn Gymraeg
- Byddwn yn ymdrechu i gynyddu gallu'r sefydliad i gyflawni'n Gymraeg naill ai trwy gyflogi staff gyda sgiliau Cymraeg , trwy ddefnyddio gwirfoddolwyr gyda sgiliau Cymraeg neu gan weithio mewn partneriaeth gyda sefydliad arall a all ddarparu yn y Gymraeg.
- Byddwn yn sicrhau bod gennym drefniadau ar waith i ddarparu defnyddiau yn Gymraeg
- Byddwn yn ystyried cael darpariaeth Gymraeg o'r cychwyn cyntaf, wrth gynllunio'r ddarpariaeth
- Mae gennym ni Bolisi neu Gynllun Gweithredu'r Gymraeg sy'n amlinellu ein hymrwymiad i'r Gymraeg ym mhopeth a wnawn
- Rydym yn sefydliad Cymraeg sy'n gweinyddu ac yn darparu yn y Gymraeg

### Cyhoeddusrwydd

- Byddwn yn cyhoeddi pob deunydd cyhoeddusrwydd yn Gymraeg, yn electronig ac ar bapur. Byddwn yn sicrhau bod deunyddiau hyrwyddo yn y Gymraeg yn cael eu cyhoeddi'r un pryd â deunyddiau Saesneg, i'r un safon ac ar ffurf ble bydd y Gymraeg yn cael ei darllen gyntaf.
- Byddwn yn hyrwyddo ein darpariaeth / gwasanaeth i gynulleidfa Gymraeg gan nodi'n glir bod darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog ar gael.
- Byddwn yn annog siaradwyr Cymraeg i gymryd rhan / defnyddio ein gwasanaeth / prosiect yn Gymraeg
- Byddwn yn hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob gweithgaredd
- Bydd siaradwyr Cymraeg ein sefydliad yn gwisgo bathodynnau sy'n nodi y gallant siarad Cymraeg ac annog pobl i siarad Cymraeg.
- Byddwn yn creu hunaniaeth Gymraeg neu ddwyieithog ar gyfer fy mhrosiect / gwasanaeth

**Ymgysylltu â'r cyhoedd**

- Byddwn yn cyfathrebu neges gyffredinol â’r cyhoedd yn ddwyieithog
- Fe wnawn gynnig cyfathrebu ag unigolion yn Gymraeg ac yna cyfathrebu â nhw yn eu dewis iaith
- Byddwn yn darparu ein gweithgaredd yn Gymraeg
- Byddwn yn darparu ein gweithgaredd yn ddwyieithog, gan sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un môr ffafriol â’r Saesneg
- Os na ellir darparu elfen o’r gweithgaredd yn Gymraeg oherwydd diffyg staff, byddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un fath â’r Saesneg, gan ddefnyddio hwyluswyr Cymraeg neu gyfieithu ar y pryd, neu drwy weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.
- Byddwn yn hyrwyddo elfennau Cymraeg ein darpariaeth

**Sicrhau effaith gadarnhaol ar y Gymraeg**

- Mae gennym ni ddealltwriaeth o sefyllfa ieithyddol y sir ac rydym yn deall yr angen i hyrwyddo’r Gymraeg
- Byddwn yn cynnig darpariaeth Gymraeg yn hytrach nag aros i rywun ofyn am ddarpariaeth Gymraeg
- Byddwn yn ymgysylltu â chymunedau Cymraeg (daearyddol neu fel arall)
- Byddwn yn sicrhau nad yw ein darpariaeth yn cael effaith negyddol ar y defnydd cyffredinol o’r Gymraeg yn y sir, gan gynnwys sicrhau nad yw ein darpariaeth yn annog siaradwyr Cymraeg i ymgysylltu â’i gilydd yn Saesneg oherwydd ein darpariaeth
- Byddwn yn sicrhau defnydd o’r Gymraeg yn ein holl ddarpariaeth gan gynnwys gan y rhai llai rhugl
- Bydd ein gweithgaredd yn rhoi cyfle i bobl ddefnyddio eu Cymraeg neu ddatblygu eu sgiliau Cymraeg
- Byddwn yn cydweithio â phartneriaid sy’n hybu’r Gymraeg (Mentrau Iaith, yr Urdd, Ffermwyr Ifanc, Meithrin, Cymraeg i Blant, Ysgolion Cymraeg, Cymraeg i Oedolion, capeli, corau, papurau newydd lleol, fforymau a rhwydweithiau sy’n hybu’r Gymraeg)

**Atodiad 3 Dangosyddion Perfformiad**

| **Dangosydd Perfformiad** | **Diffiniad** | **Tystiolaeth Archwilio** |
|---|---|---|
| Nifer y bobl a gyrhaeddwyd (gwerth rhifiadol) | Nifer y bobl yr effeithir yn uniongyrchol arnynt gan ymyriad Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Bydd y diffiniad o effaith uniongyrchol yn amrywio ar draws ymyriadau.<br><br>- Cynlluniau ymgysylltu - y rhai sy'n ymgysylltu'n uniongyrchol (e.e. darllen, gwylio, mynychu). | Cronfa Ddata |
| Nifer y cyfleoedd gwirfoddoli a gefnogir | Nifer y rolau gwirfoddoli sydd wedi'u trefnu ac a gefnogir o ganlyniad uniongyrchol i'r ymyriad. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i bobl wirfoddoli'n rheolaidd, a chyfleoedd i wirfoddoli unwaith yn unig.<br>- Mae gwirfoddoli ffurfiol yn cyfeirio at y rhai sydd wedi rhoi cymorth di-dâl drwy grŵp, clwb neu sefydliad: er enghraifft, arwain grŵp, cymorth gweinyddol neu gyfeillio neu fentora pobl. | Mae cadarnhad wedi'i lofnodi gan wirfoddolwr o'r rôl a gyflawnwyd yn ymwneud yn uniongyrchol â chymorth SPF.<br>Taflen amser gwirfoddolwyr wedi'i chwblhau |
| Nifer y digwyddiadau neu weithgareddau lleol a gefnogir | Nifer y digwyddiadau neu weithgareddau lleol a gefnogir. Mae digwyddiad yn cyfeirio at weithgareddau sydd wedi'u cynllunio. Dylai'r rhain berthyn i'r categorïau isod:<br>- Y rhai sy'n ymwneud â: (1) Ffilm, Teledu, Cerddoriaeth, Radio (2) Treftadaeth (3) Celfyddydau, Amgueddfeydd a Llyfrgelloedd. - Mae gweithgareddau a digwyddiadau eraill yn cynnwys, er enghraifft ond heb fod yn gyfyngedig i, chwaraeon, gwirfoddoli, twristiaeth a gweithredu cymdeithasol. | Manylion y digwyddiad arfaethedig |
| Nifer o fusnesau yn derbyn cymorth heb fod yn gymorth ariannol | Nifer o fusnesau yn derbyn cymorth heb fod yn gymorth ariannol megis cyfleuon marchnad newydd | Rhestr o'r busnesau sydd wedi derbyn cymorth |